

Negeseuon allweddol o ymchwil: Comisiynu Strategol – Gwasanaethau'r Heddlu

Nicola Sharp-Jeffs, Maddy Coy a Liz Kelly

Ionawr 2017

Mae'r papur briffio hwn yn dod â negeseuon allweddol ynghyd o waith ymchwil i gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac yn nodi'r goblygiadau o safbwynt comisiynu gwasanaethau'r heddlu ar lefel strategol. Dylid ei ddarllen ar y cyd â chanllawiau i weithwyr proffesiynol ar fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant [[Dolenni at y canllawiau Cymraeg](#) a'r [canllawiau Saesneg](#)].

Negeseuon allweddol

- Mae camfanteisio'n gallu digwydd i bobl ifanc o bob cefndir. Er mai merched ifanc yw'r mwyafrif o'r dioddefwyr, mae camfanteisio hefyd yn gallu digwydd i fechgyn a dynion ifanc.
- Dylai Comisiynwyr dybio bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn broblem genedlaethol sy'n digwydd ym mhob ardal heddlu ac ar draws ffiniau heddluoedd. Mae angen i'r heddlu fabwysiadu dull rhagweithiol sy'n seiliedig ar wybodaeth wrth geisio canfod dioddefwyr a'r rhai sy'n camfanteisio arnynt.
- Mae camfanteisio'n rhywiol ar blentyn yn fath o gam-drin rhywiol ac yn gysylltiedig mewn ffyrdd cymhleth â mathau eraill o drais a cham-drin. Dylid gwreiddio'r cysylltiadau hyn yn y dull gweithredu strategol.
- Wrth gynnal archwiliad o'r hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol y mae'r heddlu yn ei gael ar hyn o bryd, gellid sicrhau bod swyddogion rheng flaen a swyddogion ymchwilio yn ogystal â swyddogion trin galwadau ac arweinwyr uwch yn meddu ar y sgiliau priodol i ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol.
- Mae angen i'r cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol ddiwallu anghenion diogelwch a lles dioddefwyr os ydynt am gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau cyfiawnder troseddol.
- Nid yw data troseddu yn unig yn ddigon i fapio hyd a lled y broblem o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn llawn. Gall Comisiynwyr sy'n arwain ar greu partneriaethau strategol yn lleol wella prosesau rhannu gwybodaeth er mwyn cael proffil mwy cyflawn o droseddwyr a dioddefwyr ac er mwyn i'r proffil hwnnw gyfrannu at dechnegau tarfu ac ymyrryd cynnar effeithiol.
- Mae problemau cysylltiedig yn cynnwys rhedeg i ffwrdd/mynd ar goll/peidio â mynychu addysg. Mae gwasanaethau arbenigol yn gallu archwilio beth ddigwyddodd tra roedd y person ifanc i ffwrdd mewn ffordd sensitif drwy gynnal cyfweiliadau dychwelyd adref.

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf ar gam-drin plant yn rhywiol lle ceir elfen o gyfnawid er budd y drwgweithredwyr. Does dim un ffordd benodol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein, 2011; Berelowitz et al, 2012; Gohir, 2013). Mae meithrin perthynas amhriodol yn gyffredin mewn ambell ffurf ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ond nid yw hyn bob amser i'w weld (Beckett, 2011; Melrose, 2013). Mae camfanteisio (drwy gyswllt) ar-lein a heb fod ar-lein yn gallu gorgyffwrdd (Fox a Kalkan, 2016). Ni ellir cymryd bod plant a phobl ifanc yn cydsynio os ydynt yn ymddangos eu bod yn cydweithredu: yn ôl y gyfraith, maent yn bobl ifanc dan oed a gallant gael eu gorfodi a'u rheoli mewn sawl ffordd. Mae'r ffyrdd hyn o gamddefnyddio pŵer yn debyg i'r rhai a welir mewn achosion o drais domestig.

Er bod holl dystiolaeth yr ymchwil hyd yma yn dangos mai genethod a merched ifanc yw'r mwyafrif o'r dioddefwyr, mae camfanteisio rhywiol yn gallu digwydd i fechgyn a dynion ifanc hefyd. Ar gyfartaledd, rhwng 12 a 15 oed yw'r oedran y daw pryderon i'r amlwg am y tro cyntaf er bod astudiaethau diweddar yn dangos bod mwy a mwy o bobl ifanc rhwng 8 ac 11 oed yn cael eu hatgyfeirio, yn enwedig yng nghyswllt camfanteisio ar-lein. Nid oes cymaint o wybodaeth ar gael am gamfanteisio yng nghyswllt pobl o gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig a'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (Ward a Patel, 2006; Gohir, 2013; Coy, 2016a; Sharp, 2015; Fox, 2016). Mae'n bwysig bod Comisiynwyr yn cyfleu'r neges nad oes un math 'nodweddiadol' o ddiodeffwr.

Wedi dweud hynny, mae rhai pobl yn fwy agored i gamfanteisio nag eraill, ac mae amryw o ffactorau wedi'u nodi y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol: hanes blaenorol o gam-drin yn y teulu; amddifadedd; digartrefedd; camddefnyddio sylweddau; anabled; bod mewn gofal; rhedeg i ffwrdd/bod ar goll; a chyswllt â gangiau (Brown et al., 2016; Coy, 2009; Franklin, Raws a Smeaton, 2015; Harris a Robinson, 2007; Klatt et al., 2014; Jago et al., 2011; Smeaton, 2013). Nid ydym yn gwybod a ydi'r uchod hefyd yn berthnasol i bobl ifanc lle mae'r broses o gamfanteisio arnynt yn dechrau ar-lein neu'n digwydd yn gyfan gwbl ar-lein, er bod rhai ffactorau i'w gweld yn y naill gyd-destun a'r llall (Whittle et al., 2013).

Nid yw'r rhain, nag unrhyw restrau o ddangosyddion, yn dystiolaeth bod camfanteisio rhywiol wedi digwydd. Mae angen i swyddogion heddlu a phobl broffesiynol eraill ddefnyddio eu chwilfrydedd proffesiynol a'u crebwyll i archwilio beth sy'n digwydd i bob person ifanc. Y cam cyntaf hollbwysig yw bod asiantaethau yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd. Y cam nesaf yw cael sgwrs sensitif ond holgar â phobl ifanc.

Plismona effeithlon ac effeithiol

Mae statws bygythiad cenedlaethol wedi'i roi i gam-drin plant yn rhywiol, ochr yn ochr â throsteddu difrifol a chyfundrefnol a gwrthderfysgaeth. Felly, mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael lle amlwg yn nogfennau strategol yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol ar droseddau difrifol a chyfundrefnol (Skidmore et al., 2016). Disgwylir i ardaloedd heddluoedd nodi cynlluniau clir i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a'r adnoddau sydd ar gael i wneud hyn (o fewn cam-drin plant yn rhywiol) yn eu Cynllun Heddlu a Throseddau sy'n cael ei lunio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill (Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau 2016).

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn digwydd ar raddfa ehangach na'r hyn sydd wedi'i gofnodi yn ystadegau swyddogol yr heddlu oherwydd lefel isel y datgelu a'r cyfleoedd sy'n cael eu colli i ganfod achosion yn gynnar. (Beckett a Warrington, 2015). Mae'n anodd i bobl ifanc siarad am yr hyn sy'n digwydd, yn rhannol oherwydd eu bod yn ofni y bydd rhywun yn dial arnynt, teyrngarwch i'r sawl sy'n ei gyflawni neu oherwydd eu bod yn ofni na fydd pobl yn eu credu ac/neu y bydd pobl yn gweld bai arnynt. Felly, mae dull rhagweithiol seiliedig ar wybodaeth o ganfod dioddefwyr a'r rhai sy'n cyflawni'r trosedd yn hanfodol (Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi 2016; Myers & Carmi, 2016). Mae'n bosib mai'r heddlu (gan gynnwys ymatebwyr cyntaf) fydd yr asiantaeth gyntaf i ddod i gysylltiad â phlentyn neu berson ifanc sy'n dioddef camfanteisio rhywiol oherwydd problemau cysylltiedig, er enghraifft rhedeg i ffwrdd/mynd ar goll neu oherwydd bod pobl ifanc yn mynd ynghlwm â gweithgareddau troseddol, er enghraifft, camddefnyddio sylweddau/alcohol, cyswllt â gangiau, ymddygiad

gwrthgymdeithasol neu hwyluso camfanteisio'n rhywiol ar blant hyd yn oed. (Bartlett, 2016; Berelowitz, et al., 2013; Waddell a Molloy, 2015).

Gan fod camfantesio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin plant yn rhywiol, ac o gofio bod gan lawer o bobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio rhywiol hanes o fathau eraill o gam-drin rhywiol (Coy, 2009; Hickie, 2016), gall Comisiynwyr annog dull gweithredu integredig sy'n cydnabod bodolaeth y cysylltiadau hyn er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau/strwythurau heddluoedd yn ymateb yn y ffordd mwyaf effeithiol ac effeithlon (Nelson, 2016).

Mae gwybod pwy yw'r bobl sy'n camfanteisio'n rhywiol hefyd yn hanfodol. Gan fod pobl ifanc a throseddwr yn aml yn symud ar draws ffiniau heddluoedd, a/neu oherwydd ei bod yn bosib eu bod yn byw yn un ardal ac yn cyfeillachu mewn ardal arall, gall Comisiynwyr ystyried ai'r ffordd orau i fynd i'r afael â phroblemau lleol yw drwy ddefnyddio dull strategol traws-heddluoedd / rhanbarthol. (Martin et al, 2014).

Ymateb i'r rheini sy'n dioddef camfanteisio rhywiol

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol ac emosïynol. Fel y nodwyd uchod, mae llawer o blant a phobl ifanc wedi cael profiadau niweidiol cyn i'r camfanteisio rhywiol ddechrau (Coy, 2009; Hickie, 2016). Gall Comisiynwyr helpu i sicrhau bod swyddogion heddlu sydd mewn cysylltiad â phobl ifanc yn deall pa mor bryderus ac amharod i ddweud y bydd y bobl ifanc hyn a bod prosesau ymchwilio yn gallu achosi mwy o niwed, yn enwedig os ydynt yn taseilio eu hymddiriedaeth mewn oedolion (Beckett a Warrington, 2015). Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys: gorfod aros ar eu pennau eu hunain mewn unedau uwch-dechnoleg; ddim yn deall gymaint o amser y mae Gwasanaeth Eryl y Goron yn ei gymryd i wneud penderfyniadau; heb gael eglurhad amserol ar 'ollwng' cyhuddiadau a/neu newidiadau i gyfyngiadau ar ddiffynyddion (ibid). Rhaid rhoi sylw i risgiau posib i'r plentyn, a monitro'r risgiau hyn (Bartlett,2016).

Gall Comisiynwyr ddylanwadu drwy sicrhau bod swyddogion heddlu yn gwybod beth yw anghenion lles a diogelwch dioddefwyr a'u bod yn ceisio diwallu'r anghenion hynny (Llywodraeth Ei Mawrhydi, 2015): yn enwedig gan y byddai hyn yn esgor ar ganlyniadau gwell o ran cyfiawnder troseddol (Allnock, 2015; Beckett a Warrington, 2015; Comisiynydd Plant Lloegr, 2015; Goddard et al., 2015; Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, 2011).

Mae sicrhau bod prosesau cyfiawnder troseddol mor effeithiol ac effeithlon â phosib o'u dechrau i'w diwedd yn un ffordd y gall Comisiynwyr helpu i leddfu ar y pryder a'r amharodrwydd y mae pobl ifanc yn ei deimlo ynglŷn ag ymhél â'r System Cyfiawnder Troseddol (Beckett a Warrington, 2015). Gall hyn gynnwys meithrin cysylltiadau â phartneriaid lleol yn y system cyfiawnder troseddol a phennu disgwyliadau – er enghraifft, ymgysylltu'n gynnar mewn ffordd gydweithredol â Gwasanaeth Eryl y Goron.

Gall Comisiynwyr hefyd roi sylw i broblemau â systemau cysylltiedig. Gallant archwilio'r hyfforddiant y mae swyddogion heddlu yn ei gael ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod sgiliau swyddogion ymchwilio yn ogystal â phobl sy'n trin galwadau ac arweinwyr yn cael eu gwella (Skidmore et al., 2016). Mae dulliau diogelu strategol lleol a gwasanaethau arbenigol lleol sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol yn aml yn ffynonellau ardderchog i gomisiynu hyfforddiant ohonynt oherwydd eu profiad a'u harbenigedd.

Sicrhau bod anghenion dioddefwyr yn cael eu diwallu

Mewn llawer o achosion, rhaid sefydlu perthynas hirdymor i hwyluso datgeliad llawn gan bobl ifanc a, drwy hynny, wella gwybodaeth (Leon a Raws, 2016). Mae gwerthusiadau yn dangos bod amser, amynedd a dyfalbarhad yn ofynion craidd wrth greu perthynas â phobl ifanc, er mwyn iddynt deimlo bod rhywun yn malio amdanynt ac yn eu parchu. Maent hefyd yn nodi mai asiantaethau arbenigol sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â gwaith allgymorth rhagweithiol. Mae hyn yn cynnwys anfon negeseuon testun a ffonio bob dydd, galw i'w gweld yn ddirybudd a ffyrdd eraill o gadw mewn cysylltiad, hyd yn oed pan mae'r gefnogaeth hon yn cael ei gwrthod y tro cyntaf, neu dro ar ôl tro (Coy, 2016a; Prifysgol Oxford Brookes, 2015; Warrington, 2013). Mae gwasanaethau arbenigol yn gweithio mewn ffordd gyfannol a, pan fo angen, maent yn cysylltu pobl ifanc â'r gwasanaethau eraill sydd eu hangen arnynt - gan gynnwys iechyd rhywiol a chwrsela (Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, 2016; Leon a Raws, 2016). Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys gwasanaethau arbenigol ym maes camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ogystal â gwasanaethau ar gyfer y rheini sydd wedi goroesi trais domestig a Chanolfannau Argyfwng Trais. Mae Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol hefyd mewn sefyllfa dda i ymateb i bobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol, o gofio'r gwahanol fathau o gam-drin y gallent fod wedi cael profiad ohono (Lovett a Kelly, 2016).

“Yn bendant, mae hwn [cyswllt â gwasanaeth arbenigol] yn rhywbeth cadarnhaol y mae'r heddlu wedi'i wneud...Dyma'r peth mwyaf cadarnhaol a dwi'n ddiolchgar i'r heddlu am wneud hyn imi... byddai'n ddigon hawdd imi fynd yn ôl i wneud beth ro'n i'n ei wneud o'r blaen ond, diolch i hyn, dwi'n gallu siarad am fy mhroblemau. Dwi'n gwybod at bwy i droi a dwi'n gwybod â phwy rydw i'n saff”¹

Bydd proffiliau o'r broblem yn rhoi darlun i ni o'r hyn rydym yn ei wybod am faint o gamfanteisio rhywiol sy'n digwydd a phwy mae'r broblem wedi effeithio arnynt, wedi'i ategu gan asesiadau graddfa a thystiolaeth (wedi'i chasglu at ddibenion Cyd-asesiadau Strategol o Anghenion) a chydweithio â chomisiynwyr mewn sectorau eraill (er enghraifft, iechyd a gofal cymdeithasol). Felly, gall Comisiynwyr archwilio a oes digon o wasanaethau arbenigol ar gael i gwrdd â'r galw. Drwy gynnal archwiliad o'r gwasanaethau sydd ar gael, gall Comisiynwyr asesu i ba raddau y gall gwasanaethau lleol roi'r gefnogaeth arbenigol sydd eu hangen ar bobl ifanc, er mwyn i'r heddlu fod mewn sefyllfa i ymateb yn rhagweithiol drwy roi dioddefwyr mewn cysylltiad â nhw drwy ganolfannau i ddiodefwyr a Chymorth i Ddiodefwyr (Beckett et al. 2015; Prifysgol Oxford Brookes, 2015). Os nad oes digon o wasanaethau ar gael yn lleol i roi'r gefnogaeth sydd eu hangen, gall Comisiynwyr ystyried rhoi cyfraniad ariannol tuag at wasanaethau o'r fath neu eu comisiynu ar y cyd ag asiantaethau eraill neu ar draws ardaloedd heddluoedd (Allnock et al. 2015). Neu, gellid meithrin cysylltiadau â gwasanaethau i oedolion. Er enghraifft, mae prosiectau allgymorth ar gyfer oedolion yn y diwydiant rhyw yn ffordd allweddol o adnabod a chael cymorth i rai pobl ifanc. Nid yw camfanteisio rhywiol yn gorffen pan mae person ifanc yn cyrraedd 18 oed (Coy, 2016b) ac mae rhai dulliau strategol o ymateb yn cydnabod bod gorgyffwrdd o'r fath yn digwydd ac yn ystyried y cysylltiadau hyn.

Gellid rhoi mesurau interim ar waith, er enghraifft, prynu o ardal arall yn ôl y galw. Ond mae hyn yn dibynnu ar gynaliadwyedd y gwasanaethau arbenigol ac ar nodi bod angen i gontractau am wasanaethau arbenigol fod yn ddigon hir i feithrin perthynas o ymddiriedaeth gyda phobl ifanc.

¹ 15 year old young woman, Beckett et al. 2015

Er bod comisiynu gwasanaethau hirdymor yn ymddangos yn ddrud, mae ail-atgyfeiriadau ac argyfyngau parhaus yn ddrutach (Webb a Holmes, 2015). Gall buddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol arwain at fuddion ariannol. Mae un enghraifft o ddadansoddiad cost a budd yn dangos arbedion posib o £12 am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi (Barnardo's, 2011).

O gofio'r amser mae achos yn gallu ei gymryd i fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol, gall Comisiynwyr dynnu sylw at mor bwysig ydyw bod yr heddlu yn deall canllawiau Gwasanaeth Eryl y Goron ar fynediad at gwrsela cyn treial [[canllawiau CPS](#)] (Beckett a Warrington, 2015) a bod angen i'r gefnogaeth barhau ar ôl i'r prosesau cyfiawnder troseddol ddod i ben (Myers a Carmi, 2016).

Os nad oes adnoddau arbenigol ar gael, yna gall y Comisiynydd o leiaf ddadlau o blaid cael cyllid ar gyfer gwasanaethau o'r fath gan asiantaethau eraill a chyfrannu tuag at ddatblygu fframwaith amlasiantaeth trosfwaol y gall gweithwyr proffesiynol gyda'r arbenigedd angenrheidiol weithio ynddo.

Gwaith amlasiantaeth

Mae sawl rheswm pam fod gan Gomisiynwyr ddiddordeb mewn hwyluso cydweithio agos a/neu fframweithiau amlasiantaeth, er enghraifft, Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth. Mae plismona strategol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o dynnu sylw at atebolrwydd pobl sy'n cam-drin. Ac eto mae gormod o gamfanteisio rhywiol ar blant yn digwydd heb ei gydnabod neu heb i'r heddlu gael ei hysbysu ohono. Yn ogystal, mae cofnodion yr heddlu'n anghyson ar hyn o bryd - yn rhannol oherwydd nad yw systemau wedi'u ffurfweddu i gipio llawer o'r wybodaeth a allai fod yn arwydd o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (Skidmore et al., 2016). Felly, nid yw data troseddu ar ei ben ei hun yn ddigon i fapio maint y broblem. Gall ymrwymiad ar draws asiantaethau ar lefel strategol helpu i rannu gwybodaeth er mwyn gwella'r proffil lleol o droseddwy'r a dioddefwyr.

Mae adeiladu proffil o'r broblem yn gymhleth ac yn gofyn am lawer o amser. Mae gan Gomisiynwyr rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer y broses hon a bod prosesau cadarn ar waith i gipio gwybodaeth gan bartneriaid y gall dadansoddwr heddlu proffesiynol penodedig ei gweld. Rhan o'r gwaith hwn yw cyfathrebu - sicrhau bod partneriaid yn deall pa wybodaeth sydd fwyaf defnyddiol (enwau - gan gynnwys llysenwau, cyfeiriadau, 'mannau troseddu aml', rhifau ffonau symudol, busnesau lleol, rhifau cofrestru ceir ayyb) a sut y gellir ei defnyddio i ganfod pwy yw troseddwy'r ac ar gyfer gweithgareddau tarfu. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn ymrwymo i rannu gwybodaeth ac yn buddsoddi yn hynny. Mae partneriaid yn y cyswllt hwn yn cynnwys: a'r gwasanaeth troseddwy'r ifanc; yr awdurdod lleol, iechyd - gan gynnwys iechyd rhywiol - a mudiadau arbenigol yn y trydydd sector, gan gynnwys prosiectau allgymorth yn y diwydiant rhyw a Chanolfannau Argyfwng Trais (Skidmore et al., 2016). O gofio bod patrymau troseddu yn esblygu ac yn newid, mae'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (2016) yn argymhell bod y dadansoddwr data hefyd yn gyfrifol am ddiweddarau'r data yn rheolaidd, a bod angen i'r diweddariadau hynny roi sylw i'r rhai sy'n ymwneud â cham-drin neu gamfanteisio ar bob lefel, boed y rheini yn drefnwyr, hwyluswyr neu'n rhai sy'n cam-drin.

Gall Comisiynwyr ddefnyddio proffiliau o'r broblem i archwilio gweithgareddau tarfu ac ymyriadau wedi'u targedu. Gall cysylltiadau cryf ag awdurdodau lleol hwyluso cau busnesau neu ddirymu trwyddedau busnes. Gall Comisiynwyr ofyn i asiantaethau eraill, mudiadau yn y trydydd sector, cymunedau a rhieni weithredu fel 'llygaid a chlustiau' lleol, a'u gwahodd i fod yn

rhan o'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith cymunedol amddiffynnol. Mewn ardaloedd lle mae gan y tîm amlasiantaeth arbenigol ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant Swyddog Cyswllt Rhieni i sicrhau perthynas agos rhwng yr heddlu a rhieni, mae cyfradd yr euogfarnau hefyd yn tueddu i fod yn uwch (Palmer a Jenkins, 2014).

Yn ogystal, mae pobl ifanc yn gallu bod yn gynghreiriaid yn y gwaith oherwydd bod eu gwybodaeth am y cyd-destun lleol yn gallu helpu i lunio proffil mwy manwl o'r broblem. Mae hyn yn pwysleisio mor bwysig ydyw problemau cysylltiedig, er enghraifft rhedeg i ffwrdd/mynd ar goll. Gall gwasanaethau arbenigol gynnal cyfweiliadau dychwelyd adref er mwyn archwilio mewn ffordd sensitif pam fod plant wedi mynd ar goll a beth ddigwyddodd tra roeddent oddi cartref (Grŵp Seneddol Amlbleidiol, 2016).

Diogelwch cymunedol

Gall proffil o'r broblem gyfrannu at ddatblygu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth wedi'u targedu ar gyfer y cyhoedd (Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau, 2016; Webb a Holmes, 2015). Mae ymwneud yr heddlu a swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ag atal sylfaenol yn cynnwys gweithio gydag ysgolion, gwasanaethau i bobl ifanc a chymunedau lleol. Bydd hyn yn fwy effeithiol os bydd pobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol yn gwirio'r negeseuon a'r deunyddiau.

Cyfeiriadau

Allnock, D. (2015) *What do we know about child sexual abuse and policing in England and Wales? Evidence briefing for the national policing lead for child protection and abuse investigation* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol

Allnock, D., Sneddon, H. ac Ackerley, E. (2015) *Mapping therapeutic services for sexual abuse in the UK in 2015* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol

Y Grŵp Seneddol Amlbleidiol ar gyfer Plant ac Oedolion sydd wedi Rhedeg i Ffwrdd ac sydd Ar Goll (2016) *Inquiry into the safeguarding of 'absent' children: Cymdeithas y Plant / Missing People*

Barnardo's (2011) *Reducing the risk, cutting the cost: An assessment of the potential savings from Barnardo's interventions for young people who have been sexually exploited* Barkingside: Barnardo's

Bartlett, G. (2016) *Triennial analysis of serious case reviews (2011-2014): practice briefing for the police and criminal justice agencies* Totnes: Research in Practice

Beckett, H. (2011) *Not a World Away: The Sexual Exploitation of Children and Young People in Northern Ireland* Barnardo's: Belfast

Beckett, H. a Warrington, C. (2015) *Making Justice Work: experiences of criminal justice for children and young people affected by sexual exploitation as victims and witnesses* Luton: Prifysgol Swydd Bedford

Beckett, H. Warrington, C., Ackerley, E. a Allnock, D. (2015) *Children and young people's perspectives on the police's role in safeguarding: a report for Her Majesty's Inspectorate of Constabularies* Bedford: Prifysgol Swydd Bedford

Beckett, H., Walker, J. ac Allnock, D. (2016) *CSE: Perpetration, disruption and prosecution* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol

Berelowitz, S., Firmin, C., Edwards, G. a Gulyurtlu, S. (2012) *"I thought I was the only one. The only one in the world" interim report* Llundain: Office of the Children's Commissioner

Berelowitz, S, Clifton, J, Firmin, C, Gulyurtlu, S ac Edwards, C (2013) *"If only someone had listened": Office of the Children's Commissioner Inquiry into child sexual exploitation in gangs and groups. Final report.* Llundain: OCC

CEOP (2011) *Scoping Report on Missing and Abducted Children* Llundain: CEOP

Children's Commissioner for England (CCE) (2015) *Protecting children from harm: a critical assessment of child sexual abuse in the family network in England and priorities for action.* Llundain: CCE

Coy, M. (2009) *'Moved Around Like Bags of Rubbish Nobody Wants' How Multiple Placement Moves Can Make Young Women Vulnerable to Sexual Exploitation* *Child Abuse Review* 18(4): 254-266

Coy, M. (2016a) *'We don't get this at school: The Safe Choices Reaching Communities Project final evaluation report* London: CWASU

- Coy, M. (2016b) *Joining the dots on sexual exploitation of children and women: A way forward for UK policy responses* *Critical Social Policy* Published online 5th May
- Fox, C. (2016) *'It's not on the radar' The hidden diversity of children and young people at risk of sexual exploitation in England* Barkingside: Barnardo's
- Franklin, A., Raws, P. and Smeaton, E. (2015) *Unprotected, overprotected: meeting the needs of young people with learning disabilities who experience, or at risk of, sexual exploitation* Barkingside: Barnardo's
- Goddard, A., Harewood, E., and Brennan, L. (2015) *Review of pathway following sexual assault for children and young people in London*. Llundain: The Havens, Kings College Hospital
- Gohir, S. (2013) *Unheard voices: sexual exploitation of Asian girls and young women* London: Muslim Women's Network UK
- Harris, J. and Robinson, B. (2007) *Tipping the Iceberg: A pan Sussex study of young people at risk of sexual exploitation and trafficking* Barkingside: Barnardo's
- Hickle, K. (2016) *A Trauma informed approach, child sexual exploitation and Related Vulnerabilities* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol
- HM Government (2015) *Working Together to Safeguard Children* London: HMSO
- Her Majesty's Inspectorate of Constabulary (2016) *Missing children: who cares? The police response to missing and absent children* London: Her Majesty's Inspectorate of Constabulary
- Jago, S., Arocha, L., Brodie, I., Melrose, M., Pearce, J. and Warrington, C. (2011), *What's Going on to Safeguard Children and Young People from Sexual Exploitation? How Local Partnerships Respond to Child Sexual Exploitation* Luton: Prifysgol Swydd Bedford
- Klatt, T., Cavner, D. and Egan, V. (2014) *Rationalising predictors of child sexual exploitation and sex trading* *Child Abuse Neglect* 38(2): 252-260
- Leon, L. and Raws, P. (2016) *Boys don't cry: improving identification and disclosure of sexual exploitation among boys and young men trafficked to the UK* London: Children's Society
- Lovett, J. and Kelly, L. (2016) *Hidden Depths: What Rape Crisis data tells us about sexual violence* Llundain: London Metropolitan University
- Martin, L., Brady, G., Kwhali, J., Brown, S. J., Crowe, S. and Matouskova, G. (2014) *Social workers' knowledge and confidence when working with cases of child sexual abuse: what are the issues and challenges?* Llundain: NSPCC
- Melrose, M. (2013) *Young People and Sexual Exploitation: A Critical Discourse Analysis* in Melrose, M. and Pearce, J. (eds.) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp.9-22 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Ministry of Justice (2011) *Achieving best evidence in criminal proceedings. Guidance on interviewing victims and witnesses, and guidance on using special measures* London: MoJ
- Myers, J. and Carmi, E. (2016) *The Brooke serious case review into child sexual exploitation: identifying the strengths and gaps in the multi-agency responses to child sexual exploitation in order to learn and improve* Bristol: Bristol Safeguarding Children Board

- Nelson, S. (2016) *Tackling Child Sexual Abuse: Radical Approaches to Prevention, Protection and Support* Bristol: Policy Press
- NSPCC (2016) *Getting help: what children tell us about accessing services after sexual abuse* London; NSPCC
- Ofsted (2016) *'Time to listen' – a joined up response to child sexual exploitation and missing children* Llundain: Ofsted
- Oxford Brookes University (2015) *Supporting Children and Young People at Risk of Sexual Exploitation: Rapid Research Review* Hampshire: Hampshire County Council
- Parents Against Child Sexual Exploitation (2016) *Parents speak out: crucial partners in tackling child sexual exploitation* Leeds: Parents Against Child Sexual Exploitation
- Sharp, N. (2013) Missing from discourse: South Asian young women and sexual exploitation in Melrose, M. and Pearce, J. (eds.) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp. 96-109 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Skidmore, M., Garner, S. Crocker, R. Webb, S. Graham, J. and Gill, M. (2016) *Organised crime and child sexual exploitation in local communities* London: The Police Foundation & Perpetuity Research
- Smeaton, E. (2013) *Running from Hate to What You Think is Love: The Relationship between Running Away and Child Sexual Exploitation* Barkingside: Barnardo's and Paradigm Research
- Waddell, S. and Molloy, D. (2015) *Early intervention: a guide for frontline police officers and PCSOs: a Home Office Crime Prevention Panel project* London: Early Intervention Foundation
- Ward, J. and Patel, N. (2006) *Broadening the discussion on 'sexual exploitation': ethnicity, sexual exploitation and young people* *Child Abuse Review* 15(5): 341-50
- Warrington, C. (2013) Partners in Care? Sexually Exploited Young People's Inclusion and Exclusion from Decision Making about Safeguarding in Melrose, M. and Pearce, J. (eds.) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp. 110-124 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Webb, J. and Holmes, D. (2015) *Working effectively to address Child Sexual Exploitation: Evidence Scope*
- Whittle, H. C., Hamilton-Giachritsis, C., Beech, A., & Collings, G. (2013) *A Review of young people's vulnerabilities to online grooming* *Aggression and Violent Behavior*, 18, 135-146

Negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant – hefyd ar gael

- Yr Heddlu
- Gweithwyr cymdeithasol
- Comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- Comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- Gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion
- Gweithio amlasiantaethol

**Y Ganolfan Arbenigedd ar
Gam-drin Plant yn Rhywiol**

www.csacentre.org.uk

©lonawr 2017